

## Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch mawr y daeth y newydd ddechrau'r wythnos am farwolaeth Mrs Bronwen Williams (Cefn Berain). Bu'n fawr ei chyfeillgarwch, ac yn weithgar a chymwynasgar ar hyd ei hoes, a daliodd yn siriol hyd yn oed yn ystod ei gwaeledd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r plant – Osian a Lowri, a gweddill teulu Plas Coch, ac â'i brawd Meirion Evans (Henllan) a'i chwiorydd, a'r teulu oll. Hyderwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Parhawn i gofio am y cleifion yn ein mysg. Mae Gwenfyl Williams (Tanyfron) yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd, Kate Davies (Llansannan) yn yr Inffirmari, ac ar hyn o bryd mae Elwy Owen (Llanefydd) yn cael gofal yn Ysbyty Abergele, er bod sôn am ei symud eto yn y dyddiau nesaf. Rwy'n siŵr ein bod hefyd yn anfon ein cofion at y Parch. Meurig Dodd, un o gyfeillion y Fro, sydd yn yr Inffirmari ac sydd wedi bod yn bur wael y dyddiau diwethaf hyn. Diolchwn i Dduw amdano a chyflwynwn ef a Gwenan, ei briod, i ofal yr Arglwydd gan weddio ar iddynt gael profi cwmni'r Iesu mewn ffordd arbennig y dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau i Neil a Mared Casey (Henllan) ar enedigaeth merch, chwaer fach i Hawys. Dymunwn fendith Duw ar y teulu.

## Ysgrifen mwy o faint?

Rydym eisoes yn argraffu copiâu o Llais Bro Aled sydd â'r ysgrifen naill ai ddwy neu bedair gwaith yn fwy o ran maint ar gyfer sawl un o'r darllenwyr. Os ydych chi, neu os gwyddoch am unrhyw un sydd yn ei chael yn anodd darllen Llais Bro Aled yn y maint fel ag y mae, plis gadewch i Mair wybod. Gallwn argraffu fel bo'r galw ac anfon y copiâu hefo'r pecynnau Llais Bro Aled sy'n dod i'r eglwysi bob wythnos, neu wneud trefniant arall yn ôl y galw.

## I ddod

- **SWPER GŴYL DDEWI CYMDEITHAS LLANSANNAN** yn y Festri nos Wener, Mawrth 4ydd. Yn dilyn y swper, bydd adloniant gan Mali Elwy. Enwau i Bethan Batty (870374) erbyn dydd Sul, Chwefror 28ain, os gwelwch yn dda.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Henllan nos Fercher, Mawrth 23ain am 7.30 yng nghwmni Mrs Carys Davies, Cydlynnydd Rhaglen Dorcas yn y Gogledd.
- **LLANW** – Mae'r ŵyl Gristnogol hon yn cael ei chynnal yng Nghricieth eto eleni a hynny rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 1af. Mae taflenni gwybodaeth ar gael – holwch Mair am gopi neu ewch i'r wefan [www.llanw.org](http://www.llanw.org)
- **FFILMIO? DIM CLEM!** Diwrnod gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru i'r sawl dy'n ddi-blem am ffilmio! Bydd cyfle i ddysgu sut i greu a golygu ffilm ddigidol ar eich camera rhad/drud neu ffôn yng Nghapel Caersalem, Caernarfon LL55 2RB dydd Sadwrn, Ebrill 9fed o 10.00 tan 4.00. Cost: £5.00. Dewch a'ch cinio efo chi. Paneidiau ar gael trwy'r dydd! Am ffurflen gais, ebostiwh gwyn@ebpcw.org.uk neu ffoniwch 01758 770490.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 14<sup>eg</sup> Chwefror 2016

### Darlleniad y Dydd

Salm 119: 97-104

(BCND tud.562 / BCN tud.514)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso cynnes iawn i chi gyd i'r oedfaon. Dowch i ni ddod at ein gilydd i addoli ein Duw byw heddiw eto. Gweddiwn y byddwn ni'n cael profiad newydd o Dduw ac eisiau dod i berthynas mwy clos gydag Ef.

Dwi wedi bod yn gwyllo "Back in time for a Weekend" ar y BBC yr wythnos yma. Rhaglen ydi hon am deulu yn mynd 'nôl mewn amser' i ail fyw pob degawd yn eu tro i gael blas ar sut oedd bywyd i deuluoedd ym Mhrydain yn y cyfnodau yna. Hyd yma, mae nhw wedi byw trwy'r 50au a'r 60au. Mae wedi bod yn ddiddorol i weld y newid sydd wedi bod yn niwylliant cyffredinol Prydain dros y cyfnod ac yn enwedig sut mae'r newidiadau yna wedi effeithio ar sut oedd pobl yn byw eu bywydau. Er enghraifft, un o'r newidiadau mwyaf o'r 50au i'r 60au oedd tynnu'r piano o'r stafell fyw a rhoi teledu yn ei le. Creodd hwn dipyn o dyndra yn y teulu. Roedd y fam yn hoff iawn o'r piano ac yn drist o'i weld yn mynd, tra bod gweddill y teulu yn groesawgar iawn o'r set deledu. Dwn im os oedd hynny yn arwydd o safon chwarae piano y fam neu ddim, ond dyna fo! Gwnaeth hyn i mi feddwl a all unrhyw gymariaethau gael eu tynnu gyda'n sefyllfa eglwysig ni yng Nghymru.

Mae'n hawdd digalonni am ein sefyllfa ni heddiw. Mae nifer yr aelodau wedi disgyn a dim ond canran bach o'r rheiny sy'n mynychu oedfaon yn gyson. Mae'n rhaid i ni fod yn agored i'r ffaith mai trwy newid ac addasu i anghenion a ffasiynau'r ddiwylliant fodern (ôl-fodern!) all Eglwys Iesu Grist ar y Ddaear lwyddo. Rhaid i ni sylweddoli nad ydy eglwys yn rhywbeth statig, sydd ddim yn newid. Dylai eglwys gael ei siapio gan ei chymdeithas.

Ond wrth gofio hyn, rhaid i ni beidio colli golwg mai Crist sydd i fod wrth y llyw. Rhaid i ni fel aelodau gadw Crist fel pen yr Eglwys, pen ein heglwys:

*"Fi ydy'r winwydden; chi ydy'r canghennau. Os gwnewch chi aros ynof fi, a minnau ynoch chi, bydd digonedd o ffrwyth yn eich bywydau. Ond allwch chi wneud dim ar wahân i mi. <sup>6</sup> Os gwnewch chi ddim aros ynof fi, byddwch fel y gangen sy'n cael ei thafli i ffwrdd ac sy'n gwywo. Mae'r canghennau hynny'n cael eu casglu a'u taflu i'r tân i'w llosgi. <sup>7</sup> Os arhoswch ynof fi, a dal gafael yn beth ddwedais i, gofynnwch i Dduw am unrhyw beth, a byddwch yn ei gael."* (Ioan 15:5)

Golyga hyn y dylem ym mhob diwylliant neu gymdeithas 'da ni'n rhan ohoni – boed hynny'n un hefo 'piano' neu 'deledu' – roi Iesu Grist yn gyntaf.

**DILYNWCH NI:** @eglwysibroaled

*Gwion*

### Darlleniad Wythnos Nesaf

Mathew 22:41-46 (BCND tud.27 / BCN tud.25)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 14<sup>eg</sup>
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd y Parch. Hywel Meredydd yn pregethu, a hefyd yn sgwrsio am y gwaith y mae *Tearfund* wedi bod yn ei gyflawni yn ddiweddar.
- Mawrth – 16<sup>eg</sup>
- Dilladu Merch ar Draws y Byd** Yn dilyn llwyddiant y noson yn y Ffestri yn Llansannan ym mis Tachwedd, bydd cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno i fynd i Ganolfan 'HWB' yn Ninbych o 9:30 – 12:30 i bwytho mwy o ffrogiau a siorts (patrwm syml gan ddefnyddio cas gobennydd), ac i weu tedi i'w rhoi ym mhoced y dilledyn. Dewch â chas gobennydd a thaclau gwnïo/gweu hefo chi. (Mae digon o beiriannau gwnïo yno.) Fe fydd Llinos Roberts (Cefn Meiriadog) a Dawn Wilks (Llansannan) yno i roi arweiniad i ni. Croeso i bawb o bob oed!
  - Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
  - Penwythnos Ieuentid (Bl. 7-11)** yng Ngholeg y Bala. Os nad ydych eisoes wedi archebu lle, plis gwnewch hynny mor fuan â phosib gan anfon blaendâl o £10. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled.
- Gwener – Sul  
19<sup>eg</sup> – 21<sup>ain</sup>
- Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Sul nesaf – 21<sup>ain</sup>

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 14<sup>eg</sup> Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 21<sup>ain</sup> Bydd Mr Gwilym Tudur yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma – 14<sup>eg</sup> Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun – 15<sup>fed</sup> Bydd Cymdeithas Llansannan yn mynd i Noson o Ddramâu yng Nghapel Bethania, Rhuthun am 7.30. Os oes unrhyw un arall eisiau tocyn, mae gan Bethan Batty (870374) ychydig ar ôl.
- Sul nesaf – 21<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

## Cyhoeddiadau

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 14<sup>eg</sup> Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 21<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 14<sup>eg</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf – 21<sup>ain</sup> Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 14<sup>eg</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 21<sup>ain</sup> Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 14<sup>eg</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain ac yn Llanefydd am 10.00.
- Sul nesaf – 21<sup>ain</sup> Bydd Dr Andras Iago yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg ag oedfa'r bore yng Nghefn Berain.

### Manylion Cyswilt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📞 07775 701102  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07849 591163  
Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07900 308461  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.